Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 8fed Tachwedd, 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 .00pm

Presennol: Cyng Pam Steane Price, y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Edward Thomas
Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau: Cyng Roy Davies

Cof 113 / Tachwedd / 06 Anfonebau i'w talu.

WCVA (gweinyddiaeth Hydref)	£ 34.66
WCVA (cyflogau Hydref)	£ 159.76
Archaeoleg Cambria	£ 4827.00
Festive Lighting Company	£ 2214.90
Heritage Screenprint (prosiect Neuadd y Sir)	£ 1236.70
Sams Electrical	£ 781.38
Treuliau'r Swyddog Technegol	£ 6.59

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid talu'r eitemau hyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Richard Wallace.
Roedd pawb o blaid.

Cofnod 114 /Tachwedd / 06 Incwm a Dderbyniwyd Hydref 2006

ARCHAEOLEG CAMBRIA	£ 2,791.75
LLOG – CYFRIF CYFREDOL	£ N/A
TÂN GWYLLT – REFENIW MYNEDIAD (6.11.06)	£ 2,670.56

.

Cof 115 / Tachwedd / 06 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC	CYFRIF CYFREDOL (6.11.06)	£ 30,102.24
LTC	CYFRIF CYNILO (6.11.06)	£ 2,837.33
LTC	CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.10.06)	£ 2,071.95

Telir arian o'r Bwrdd Benthyg Arian Cyhoeddus i mewn i'r cyfrif banc yn ystod y diwrnodau nesaf.

Cof 116/ Tachwedd / 06 Materion Ariannol Eraill

1. Balans y Cyfrif Tân Gwyllt

Gwariant		**Incwm**	
Fireworks International	£ 345.00	Wrth y gât	£2,670.56
Fireworks International	£ 3,632.77		
Selectamark security	£ 58.64		
Cyfanswm	£ 3,726.41		

Bydd derbynebion o'r hysbysebion yn y rhaglen a gwerthu bathodynnau yn dilyn.

Diolchwyd y Swyddog Cyllid am ei holl waith.

2. Yr Adroddiad Archwilio Chwarterol.
   Adroddodd y Cyng Pam Steane Price fod hyn wedi'i wneud ac ni chanfuwyd unrhyw anghysondebau.
3. Ceisiadau cyllidebol o'r Gweithgorau.
   Gofynnodd y Cyng Hugh Towns i bob gweithgor gyflwyno eu hamcangyfrifon o ran gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn eu cynnwys yn y gyllideb wrth ystyried yr Archebiant yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr.
   Gwnaed yr argymhellion canlynol :-
   i) Y gyllideb Tân Gwyllt i barhau yr un fath â 2006. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn
   ii) Cynnydd o £1000 yn y gyllideb Goleuadau Nadolig. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace
   iii) Cynydd o £1500 i'w roi i'r naill ochr er mwyn cyhoeddi ac ail argraffu a dosbarthu'r taflenni Llwybr Treftadaeth. Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace, eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns
4. Cynhelir Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ar Ragfyr 6ed yn Neuadd y Sir am 7.30pm er mwyn trafod y Gyllideb ar gyfer 2007-8. Dyma fydd yr unig eitem ar yr agenda.
5. Cytunwyd y bydd y Cyng Hugh Towns yn derbyn arwydd mandad i'w arwyddo ar gyfer Cyfrif y Maer.
6. Adroddodd y Swyddog Cyllid fod ffurflen hawlio grant ar gyfer Neuadd y Sir wedi'i chyflwyno.

Cof 117 /Tachwedd / 06 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1 Llythyr o ddiolch oddi wrth Ficer Llandeilo am y rhodd o £1000 gan y Cyngor.
2 Y rhodd flynyddol am y Dorch Pabi. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylai fod fel ag yr oedd y llynedd (£50). Bydd y Pared yn ymgynnull am 10.15am ar ddydd Sul 12fed Tachwedd.

Cofnod 118 / Tachwedd / 06 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Argymhellwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylai'r Cyngor adolygu ei reoliadau Cyllid gan eu newid ar y Wefan.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 pm.